

## SWYDD DDISGRIFIAD

### Swyddog Prosiect Cyflawni

<b>Cyflog:</b>	£25,000 (pro-rata) yn ogystal â phensiwn cyflogwr a chostau teithio
<b>Lleoliad:</b>	Swyddfeydd PLANED (yn Arberth ar hyn o bryd)
<b>Oriau:</b>	22.5 awr yr wythnos
<b>Cyfnod:</b>	Cyfnod Penodol (Gorffennaf 2022)

#### Diben y Swydd:

Helpu ac arwain prosiectau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes a gefnogir drwy gynllun LEADER Arwain Sir Benfro (ASB). Mae'r rhaglen LEADER yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig (RDP) - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Bod yn gymorth wrth reoli prosiectau newydd a phosibl a phrosiectau sy'n bodoli eisoes sydd wedi eu hariannu a'u cymeradwyo i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt, gan chwilio am gyfleoedd i ychwanegu gwerth a chydweithio â gweithgarwch cysylltiedig arall. Adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Gweithredu Lleol a bwrdd PLANED.

#### Atebolrwydd:

Adrodd i Gydlynnydd LEADER ASB, bwrdd PLANED, Grŵp Gweithredu Lleol (LAG).

#### Cysylltiadau Allweddol:

Yn fewnol: Tîm Rheoli, Tîm LEADER, Bwrdd PLANED, y grŵp gweithredu lleol.

Yn allanol: Cymdeithasau cymunedol a grwpiau cymunedol, cynghorau cymuned a thref, grwpiau a rhwydweithiau gwirfoddol a busnes lleol.

#### Cyfrifoldebau a dyletswyddau:

- Rhoi cymorth deiniol i gymunedau, sefydliadau busnes a'r sector cyhoeddus i ddatblygu prosiectau yn unol ag amcanion strategaeth datblygu lleol LEADER
- Helpu grwpiau cymorth i nodi ffynonellau arian cyfatebol
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau - cefnogi prosiectau presennol i gadw ar ben ffordd gyda'u gweithgarwch a'r gyllideb y cytunwyd arni
- Nodi cysylltiadau ac ychwanegu gwerth ar draws y prosiectau amrywiol a gefnogir
- Sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws yr ardal drwy ddatblygu astudiaethau achos, digwyddiadau cyfnewid gwersi, ymweliadau astudio
- Ysgrifennu adroddiadau cynnydd sy'n tynnu sylw at gyflawniadau allweddol prosiectau yn unol â dangosyddion perfformiad cyffredinol y rhaglen
- Rhannu cyfathrebiadau'r prosiect gyda'r tîm i gyfrannu at gynllun cyfathrebu'r rhaglen
- Cynnal perthynas broffesiynol a chadarnhaol gydag aelodau eraill o staff ac aelodau'r bwrdd/pwyllgor
- Ymgymryd â phob gweithgarwch ychwanegol rhesymol fel y cytunwyd gyda'ch rheolwr llinell

#### Sgiliau a phrofiad i Gynnwys:

- Dull proffesiynol, rhagweithiol gyda sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol
- Sgiliau a phrofiad rheoli prosiect
- Profiad o ddatblygu a chyflawni prosiectau cymunedol neu fenter
- Ymrwymiad i werthoedd ac ethos PLANED
- Gwybodaeth am heriau a chyfleoedd yn Sir Benfro
- Cyfathrebwr cryf gyda sgiliau hwyluso grŵp
- Hunan-ddisgybledig, gydag agwedd gadarnhaol, hyblyg at weithio ar eich liwt eich hun a gallu gweithio fel rhan o dîm
- Lefel uchel o sgiliau cyfrifiadurol
- Gallu gweithio'n dda o dan bwysau a blaenoriaethu tasgau'n rhagweithiol
- Sgiliau gweinyddol rhagorol
- Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais
- Trwydded yrru lawn a mynediad at gar sy'n addas ar gyfer gwaith.

## MANYLEB PERSON

# Swyddog Prosiect

Amgylchedd Gwaith y Swydd:		
1. Fel arfer, bydd deiliad y swydd yn gweithio yn y swyddfa ond disgwylir iddo dreulio amser yn gweithio yn y gymuned yn aml.		
2. Mae'n bosib y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio rhai penwythnosau a gyda'r nos yn achlysurol.		
3. Bydd angen i ddeiliad y swydd feddu ar drwydded yrru a bod yn barod i ddefnyddio car ar gyfer gwaith.		
	Hanfodol	Dymunol
<b>Profiad</b>		
1. Profiad o ddatblygu a chyflawni prosiectau a/neu gefnogi prosiectau a rienir	✓	
2. Profiad perthnasol o weithio mewn modd cydweithredol gydag ystod wahanol o randdeiliaid	✓	
3. Profiad o feithrin a chynnal perthnasoedd o fewn grwpiau a rhwydweithiau cymunedol	✓	
<b>Gwybodaeth</b>		
4. Gwybodaeth am Sir Benfro a materion sy'n wynebu cymunedau gwledig	✓	
5. Gwybodaeth am fethodolegau datblygu cymunedol ar lawr gwlad		✓
<b>Sgiliau</b>		
6. Parodrwydd i ymgysylltu'n gadarnhaol a chymryd atebolrwydd o fewn y rôl	✓	
7. Sgiliau a phrofiad rheoli prosiect	✓	
8. Sgiliau wrth ddatblygu a chyflwyno prosiectau cymunedol neu fenter	✓	
9. Sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol	✓	
10. Hwyluso cymunedau a/neu grwpiau	✓	
11. Hunan-ddisgybledig, gydag agwedd hyblyg at weithio ar eich liwt eich hun a gallu gweithio fel rhan o dîm	✓	
12. Gallu gweithio'n dda o dan bwysau a blaenoriaethu tasgau'n rhagweithiol	✓	
13. Lefel uchel o sgiliau cyfrifiadurol	✓	
14. Sgiliau gweinyddol rhagorol	✓	
15. Gallu siarad Cymraeg		✓
16. Ymrwymiad i werthoedd ac ethos PLANED	✓	

**Noder:** Mae'r swydd ddisgrifiad hwn yn cael ei roi i ddarparu amlinelliad eang o weithgareddau'r swydd. Mae'n bosib y bydd PLANED yn gofyn i'r deiliad ymgymryd â dyletswyddau eraill sydd ddim o reidrwydd yn cael eu nodi yn y swydd ddisgrifiad, ond sy'n gymesur â graddfa'r swydd. Mae'n bosib y bydd y swydd ddisgrifiad yn cael ei addasu o bryd i'w gilydd o fewn y cwmpas a'r lefel cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd.